

Hysbysiad Hawlfraint

Dyma atgoffa staff a myfyrwyr y Brifysgol hwn fod hawlfraint yn gymwys ar y darn hwn ac ar y gwaith y mae'n dod ohono. Gwnaed y Copi Digidol hwn yn unol â thelerau Trwydded yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint, sy'n golygu eich bod yn cael:

- Gweld a lawr lwytho copi
- Argraffu copi

Mae'r Copi Digidol hwn ac unrhyw gopi digidol neu argraffedig a roddir ichi neu a wnaed gennych yn ôl telerau'r Drwydded hon i'w ddefnyddio yng nghyd-destun y modiwl hwn neu'r cwrs astudio hwn. Cewch gadw'r copïau hyn ar ddiwedd y cwrs, ond dim ond at eich defnydd eich hun.

Rhaid i bob copi (gan gynnwys copïau electronig) gynnwys yr Hysbysiad Hawlfraint hwn a rhaid iddynt gael eu dinistrio neu eu dileu os bydd y Brifysgol yn gofyn ichi wneud hynny.

Ac eithrio'r hyn sy'n dderbyniol yn ôl darpariaethau cyfraith hawlfraint, ni cheir copïo, cadw na dosbarthu (gan gynnwys dosbarthu drwy e-bost) heb ganiatâd y sawl sy'n dal yr hawlfraint.

Mae gan yr awdur (ymadrodd sy'n cynnwys arlunydd a'r sawl sy'n creu gweithiau gweledol eraill) hawliau moesol ar y gwaith ac ni chaiff staff na myfyrwyr achosi na chaniatáu i'r gwaith gael ei anffurfio, ei lurgunio na'i addasu fel arall, na'i drin mewn unrhyw fodd difrifol arall, a fyddai'n gwneud cam ag anrhydedd neu enw da'r awdur.

Teitl y darn: **Y Fformiwla yn Pedair Keinc y Mabinogi**

Enw'r Awdur: **Davies, S.**

Teitl/Awdur/Argraffiad y llyfr (os yw'n berthnasol): **Ysgrifau Beirniadol XV. Williams, J.E.C. (golygydd)**

Enw Crëwr Gwaith Gweledol neu
gydnabyddiaeth arall (os yw'n berthnasol):

Manylion cyfnodolyn -
teitl/Cyfrol/Blwyddyn (os yw'n berthnasol):

Cyhoeddwr: **Gwasg Gee**

Tudalennau a sganiwyd: **47 - 72**

Cwrs Astudio (Enw a rhif y modiwl): **Y Mabinogi CYCS7015C**

Enw'r sawl a awdurdododd
y sganio:

E.L. Harris

Dyddiad y rhoddwyd awdurdod: 08.08.13

Moodle/Powerpoint

Y FFORMIWLA YN PEDEIR KEINC Y MABINOGI

gan

SIONED DAVIES

Ym 1984 gwnaeth yr Athro Brynley Roberts rai sylwadau ar yr elfen fformiwlaig mewn rhyddiaith Gymraeg ganoloesol:

The written stories are not markedly formulaic. Formulae are used for restricted functions, e.g. greetings, requests for news, oaths, but they play little or no part in the formation of style. Stories normally open with a phrase naming the hero and giving his status, kingdom, etc . . . There are set collocations of noun and adjective, descriptions of dress and appearance, conventional descriptions of combat and phrases denoting the passage of time . . . but within the context of a complete story such phrases do not draw attention to themselves by their frequency and they have a narrow functional role in composition.¹

Mae'n sicr nad oes i'r fformiwla mewn llenyddiaeth ysgrifenedig yr un pwysigrwydd a'r un swyddogaeth ag a oedd iddi mewn perfformiad llafar o'r un chwedl. Eto i gyd, mae'r dechneg fformiwlaig yn rhan annatod o gyfansoddiad *Pedeir Keinc y Mabinogi* ac yn haeddu sylw manwl mewn unrhyw drafodaeth ar arddull y ceinciau.²

Yn gyntaf dylem ddiffinio'r hyn a olygir wrth y term *fformiwla* yng nghyd-destun *Pedeir Keinc y Mabinogi*. Yn ôl yr *Oxford English Dictionary* dyma yw fformiwla:

¹ Brynley Roberts, 'From Traditional Tale to Literary Story — Middle Welsh Prose Narratives', yn *The Craft of Fiction*, gol. L. A. Arrathoon (Solaris Press, 1984), t. 216.

² Gweler fy nhraethawd D.Phil., *A Study of Narrative Methods in the Mabinogion* (Rhydychen, 1982).

A set form of words in which something is defined, stated or declared

ac yn ôl diffiniad *Geiriadur Prifysgol Cymru*:

Dull sefydlog neu arferol o ddweud, diffinio neu fynegi peth (yn aml brawddeg(au) a ddefnyddir fel rhan o ddefod neu ar achlysur seremonïol), ffurfreol.

Mae'r diffiniadau uchod yn ddigonol i ddisgrifio fformiwlâ yn *Pedeir Keinc y Mabinogi*, ond eto mae angen manylu ar y diffiniad a rhoi dosbarthiad ar y gwahanol deipiau o fformiwlâu.

Gwnaethpwyd llawer o waith ar y fformiwlâ ac arddull fformiwlâig yng ngherddi Homer. Y prif ysgolhaig yn y maes hwn oedd Milman Parry — efe a ddatblygodd y ddamcaniaeth fod cyfansoddi fformiwlâig yn gyfystyr â chyfansoddi llafar.³ Diffiniodd ef y fformiwlâ yng ngherddi Homer fel:

A group of words which is regularly employed under the same metrical conditions to express a given essential idea.⁴

Datblygu yn elfen yn y cyfansoddiad llafar a wnaeth y fformiwlâ yn ôl Parry — gydag amser daw angen cynyddol am ymadrodd arbennig; felly daw'r ymadrodd yn sefydlog ac fe'i defnyddir yn rheolaidd gan y bardd, ac y mae hyn yn creu fformiwlâ. Yn y modd hwn mae'r bardd anlythrennog yn casglu at ei gilydd doreth o fformiwlâu neu ymadroddion parod sydd yn ei alluogi i ddisgrifio unrhyw sefyllfa neu destun fel y bo'r gofyn. Wrth gymharu ieithwedd Homer â chaneuon arwrol dwyrain Ewrop daeth Parry i'r casgliad mai cynnyrch traddodiad llafar oedd arwrgerddi Homer ac mai ar lafar y cyfansoddwyd hwy'n wreiddiol. Felly, yn ôl damcaniaeth Parry, prif nodwedd barddoniaeth lafar yw ei

³ Gweler Milman Parry, *The Making of Homeric Verse: The Collected Papers of Milman Parry*, gol. Adam Parry (Rhydychen, 1971). Ceir crynodeb clir o ddamcaniaethau Parry gan Ann Chalmers Watts, *The Lyre and the Harp — A Comparative Reconsideration of Oral Tradition in Homer and Old English Epic Poetry* (New Haven a Llundain, 1969), tt. 7-35.

⁴ Gweler Milman Parry, 'Studies in the Epic Technique of Oral Verse-Making. I. Homer and Homeric Style', yn *The Making of Homeric Verse*, tt. 266-325.

helfen fformiwlâig, ac mae defnyddio fformiwlâu mewn cerdd yn olion o fynegiant llafar y gerdd honno.

Cafwyd beirniadu ar ei syniadau ar lawer cyfrif, a cheisiodd amryw ehangu ei ddiffiniad o fformiwlâ.⁵ Yn wir, y mae Parry ei hun yn awgrymu fod fformiwlâu mwy cyffredinol na'r cyfuniadau o enw ac ansoddair i'w cael:

not only were there fixed or verbatim formulae, but also fluid formulae that resemble others in rhythm, in parts of speech, and in one important word.⁶

Fel y sylwodd J. A. Russo:

Once the variable word or words were allowed, it was an easy step to take to allow any and all the members of a phrase to be variable and still count the phrase as formulaic, so long as it continued to share similarities of rhythm, parts of speech, syntactic relationship, and usually localization within the hexameter verse, with a series of other phrases that could be related to the same 'system'. This is the final step in the stretching of the definition of the 'formulaic', giving us structural formulas, or formulaic patterns or structures.⁷

Yr hyn sydd yn bwysig yn y cyswllt hwn yw i ba raddau y medrwn addasu'r damcaniaethau hyn at *ryddiaith*. Maentum-iodd K. O'Nolan nad oes perthynas anhepgor rhwng y

⁵ A. B. Lord, *The Singer of Tales* (Cambridge, Mass., 1960). Hefyd G. S. Kirk, *The Songs of Homer* (Cambridge, 1962) a *Homer and the Oral Tradition* (Cambridge, 1976). Ceir crynodeb defnyddiol o'r gwaith diweddar a wnaethpwyd ar lenyddiaeth lafar gan A. B. Lord, 'Perspectives on Recent Work on Oral Literature', yn *Oral Literature*, gol. J. J. Duggan (Caer Edin a Llundain, 1975), tt. 1-24. Gweler hefyd Walter J. Ong, *Orality and Literacy, The Technologizing of the Word* (Methuen, 1982). Ehangwyd yr astudiaeth hefyd i Hen Saesneg gan ysgolheigion megis Francis P. Magoun, 'The Oral-Formulaic Character of Anglo-Saxon Narrative Poetry', *Speculum*, xxviii (1953), tt. 446-467, a R. F. Waldron, 'Oral-Formulaic Technique and Middle English Alliterative Poetry', *Speculum*, xxxii (1957), tt. 792-804. Cafwyd beirniadu ar waith Parry yn *Oral Literature and the Formula*, gol. B. A. Stolz a R. S. Shannon (Center for the Coordination of Ancient and Modern Studies: The University of Michigan, Ann Arbor, 1976). Astudiaeth werthfawr yn ymwneud â Gwyddeleg yw eiddo Seán Ó Coileáin, 'Oral or Literary? Some strands of the Argument', *Studia Hibernica*, xvii-xviii (1977-8), tt. 7-35.

⁶ Parry, *The Making of Homeric Verse*, t. 313.

⁷ J. A. Russo, 'Is Oral or Aural Composition the Cause of Homer's Formulaic Style?', yn *Oral Literature and the Formula*, tt. 31-48.

fformiwla a mydr — mae'r fformiwla yn perthyn i fyd y storiwr, ni waeth p'un a yw'r storiwr hwnnw'n adrodd ei chwedl mewn barddoniaeth neu mewn rhyddiaith.⁸ Yn ei dyb ef mae fformiwla yn anhepgor wrth adrodd stori arwrol:

The tale may be in prose or in verse, but, if it is heroic, it will have formulas. The composer's thought proceeds in the mould and pattern of formulas. The less familiar uncharted parts make the greatest demands on his powers of composition, expression, and memory, and it is this very fact which causes him to interlard these parts with other set, traditional passages which please the audience by their repetitive and well-polished character, while enabling the teller to nurse his story along without undue effort.⁹

Os derbyniwn hyn, yna mae modd canfod elfen fformiwlaig i ryw raddau yn holl chwedlau'r *Mabinogion*. Anaml y ceir cyseinedd a chyflythreniad i glymu elfennau'r fformiwla'u ynghyd yn y Gymraeg, fel yr hyn a welodd O'Nolan yn chwedlau Finn, ac nid chwedau 'arwrol' mohonynt chwaith. Ond eto, o edrych ar y dystiolaeth gwelir fod gormod o gyfatebiaethau rhwng ymadroddion a disgrifiadau iddynt beidio â bod yn ddim ond cyd-ddigwyddiad. Mae'n amlwg fod yr awduron yn tynnu oddi ar stoc o glymiadau geiriol neu fformiwla'u a oedd yn gyfarwydd iddynt, gan adeiladu ac amrywio arnynt fel y byddai'r gofyn. Nid dweud yw hyn i'r chwedlau gael eu cyfansoddi ar lafar ond yn hytrach fod yr arddull lafar yn rhan annatod o'u gwneuthuriad.

⁸ K. O'Nolan, 'Homer and Irish Heroic Narrative', *The Classical Quarterly*, New Series, xix (1969), tt. 1-19. Hefyd O'Nolan, 'Formula in Oral Tradition', yn *Approaches to Oral Tradition*, gol. Robin Thelwall, *Occasional Papers in Linguistic and Language Learning*, rhif 4 (Ionawr, 1978), tt. 25-34; O'Nolan, 'The Use of Formula in Story-Telling', yn *Hereditas — Essays and Studies Presented to Professor Séamus ó Duilearga*, gol. Bo Almqvist, Breandán mac Aodha, Gearóid Mac Eoin (Dulyn, 1975), tt. 233-250. Ond gweler hefyd E. M. Slotkin, *Evidence for Oral Composition in Early Irish Saga*, Diss. D.Phil. (Harvard, 1977). Dyfais fydryddol yw'r fformiwla yn ôl Slotkin; yn ei dyb ef 'if we wish to test passages for formulaic content in a 'meaningful' way we must be able to perceive the poetic line, the metrical unit that serves as a compositional element' (t. 167). Tueddaf i anghytuno â Dr. Slotkin — mae'n siŵr fod modd i'r fformiwla ddatblygu'n annibynnol ar fydr a'i bod yn rhan anhepgor o'r chwedl ryddiaith.

⁹ O'Nolan, 'Homer and Irish Heroic Narrative', t. 3.

Yn gyntaf hoffwn edrych ar y fformiwla'u ieithyddol sydd yn *Pedeir Keinc y Mabinogi*, sef y fformiwla'u hynny sydd yn amlwg mewn ymddiddan ac a oedd, yn ôl pob tebyg, yn rhan o iaith bob dydd y cyfnod. Mae'r dosbarth hwn yn cynnwys llwon a chyfarchion.¹⁰

	<i>Pwyll</i>	<i>Bran.</i>	<i>Man.</i>	<i>Math</i>
1. kyuarch guell	1, 2, 3	1, 2, 3		1, 2,
2. duw a ro da yt	1, 3	1		3
3. a chraessaw duw wrthyt		1		1
1. dyd da itt	1		1, 2, 3	1, 2, 3
2. duw a rodo da it		3	1, 2	1
3. a grayssaw wrthyt			2	1, 2
1. henpych guell		1, 2		11
2. duw a rodo da ywch				

Gan amlaf digwydd dwy fformiwla gyda'i gilydd yma, hynny yw mae un cymeriad yn cyfarch a'r llall yn ei ateb ar un-waith.¹² *Duw a rodo da yt (a chraessaw duw wrthyt)* a ddefnyddir fwyaf. Y cyfarchiad cyntaf gan amlaf yw *dyd da it, henpych guell* neu gyfarchiad anuniongyrchol, hynny yw *cyfarch guell idaw*. Sylwer na cheir *dyd da it* ym *Mabinogi Branwen*, ac ni cheir *henpych guell* ddim ond yn *Branwen*. Mae'r atebion yn y pedair chwedl yn eithaf tebyg, ond bod y cyfarchiad yn amrywio. Sylwer hefyd nad yw *craessaw duw wrthyt* yn digwydd o gwbl ond gyda *kyuarch guell*.

Ceir llawer mwy o lwon yn y testun:

¹⁰ Defnyddir golygiad J. Gwenogvryn Evans o *Llyfr Gwyn Rhydderch* (Caerdydd, 1973).

¹¹ *Pwyll* col. 23; 2-3; 20; 18. *Bran.* col. 39; 50; 46; 52. *Man.* col. 76; 77; 78. *Math* col. 85; 95; 97; 98; 102; 90. Sylwer hefyd ar y negydd yn *Pwyll*, col. 2: 'mi a wnn pwy wyt ti ac ny chyuarchaf i well it'.

¹² Gweler T. M. Charles-Edwards, 'Honour and Status in Some Irish and Welsh Prose Tales', *Ériu*, xxix (1978), tt. 123-142. Dywed ef 'the standard way in *Pedeir Keinc y Mabinogi* to open a conversation is for the inferior to begin with a *kyuarch guell* and the superior to respond by wishing him *graessaw Duw*. The usual *kyuarch guell* is 'Arglwyd, dyd da it'; and the usual *graessaw Duw* is 'Duw a ro da it a *graessaw wrthyt*' (t. 126). Awgryma hefyd y byddai'r gwestai yn dechrau gyda *kyuarch guell* a'r gwestywr yn ateb gyda *graessaw Duw* (t. 126).

	<i>Pwyll</i>	<i>Bran.</i>	<i>Man.</i>	<i>Math</i>
dioer	3	4	7	13
y rof i a Duw	13		13	3
yr Duw	2			2
ym kyffes y Duw	1		1	
I duw y dygaf uyg kyffes	1	1	1	1
dygaf y duw uyg kyffes			1	2
Meuyl ar uy maryf		1		
Mefl	1	1	2	
Oy a arglwyd Duw	1		2	
Oy a uab Duw		1		
Oy a duw holl gyuoethawc			1	
Oy a Duw	1	1		

Yma ceir chwe phrif fformiwla. Sylwer na cheir y ffurf *Duw* a wyr yn *Pedeir Keinc* y *Mabinogi* o gwbl, er bod y ffurf gryno *dioer* yn digwydd yn fynych. Ni ddefnyddir y *rof i a duw* yn *Branwen*. Digwydd yn fynych yn y Tair Rhamant ond nis ceir yn *Culhwch ac Olwen*, *Breuddwyd Rhonabwy*, *Breuddwyd Maxen na Lludd a Llefelys*. Ni cheir *mefl* nac *oy a duw* ym *Mabinogi Math*.¹³

Fformiwlâu ferbatim/air am air yw'r llwon; cyfuniadau o unedau ferbatim yw'r cyfarchion sydd yn uno i roi fformiwla hwy. Er bod fformiwlâu ferbatim yn gymorth i'r storiwr llafar — yn ddyfais fnemonig — efallai nad oedd cymaint o'u hangen pan drosglwyddwyd y chwedlau i femrwn. Dyma paham y gwelir mwy o fformiwlâu newidiol (*variable formulae*), lle ceir unoliaeth drwy lynu at yr un adeiladwaith a thrwy ail-adrodd geiriau allweddol. Y mae fformiwlâu o'r fath yn llawer mwy amlwg yn *Pedeir Keinc* y *Mabinogi*, gan awgrymu efallai fod y chwedlau'n adlewyrchu mynegiant datblygedig a soffistigedig.

Defnyddir fformiwlâu newidiol mewn sawl cyd-destun. Dyma'r dechneg a ddefnyddir yn holl chwedlau'r *Mabinogion* i ddisgrifio ymddangosiad corfforol.¹⁴ Ychydig iawn o le i ddisgrifio o'r math hwn sydd yn *Pedeir Keinc* y *Mabinogi*:

¹³ Ymddengys fod y gwahanol lwon yn digwydd o dan amodau arbennig, e.e. *dioer* + negydd yn aml. Hefyd cyfyngir rhai llwon i gymeriadau arbennig. Gobeithiaf gael trafod hyn mewn man arall.

¹⁴ Cf. fy erthygl yn *Ysgrifau Beirniadol*, XIV, gol. J. E. C. Williams, 'Pryd a Gwedd yn y *Mabinogion*', lle ceir dadansoddiad manwl o'r disgrifiadau o gymeriadau yn holl chwedlau'r *Mabinogion*.

Pwyll 1. . . . ef a welei uarchauc yn dyuot yn ol yr erchwys y ar uarch erchlas mawr. A chorn canu am y uynwgyl. a gwisc o urethyn llwyd tei amdanaw yn wisc hela. [col. 2]

2. Llyma y guelei ef teulu ac yniuerod. ar niuer hardaf a chyweiraf or a welsei neb yn dyuot y mywn ar urenhines y gyt ac wynt yn deccaf gwreic or a welsei neb ac eurwisc amdanei o bali llathreit. [col. 5]

3. Ac wal y bydynt yn eisted wynt a welynt gwreic ar uarch canwelw mawr aruchel a gwisc eureit llathreit o bali amdanei . . . [col. 13]

4. . . . wynt a welynt yn dyuot y mywn guas gwineu mawr teyrneid a guisc o bali amdanaw [col. 20]

Bran. A mi a welwn gwr melyngoch mawr yn dyuot or llyn . . . A gwr heuyt athrugar mawr a drygweith anorles arnaw oed. a gwreic yn y ol. ac ot oed uawr ef mwy dwyweith oed y wreic noc ef. [col. 45-46]

Math. 1. mab braswineu telediw [col. 92]
2. mab brasuelyn mawr [col. 93]

Y mae rhai elfennau'n gyffredin i bron bob enghraifft a nodwyd: cyflwynir y disgrifiadau yn *Pwyll* a *Branwen* gan y gair *gweld*; ni chrybwyllir enw priod y cymeriad; ceir disgrifiad byr o wisg y cymeriad gan ddefnyddio'r un gystrawen yn *Pwyll*:

gwisc o urethyn . . . amdanaw
gwisc eureit llathreit o bali amdanei
guisc o bali amdanaw
eurwisc amdanei o bali llathreit¹⁵

a chyfeirir at liw gwallt a maintioli Gwawl, Dylan, Hychdwn a'r dyn yn *Branwen* heb ddefnyddio'r enw *gwallt* o gwbl. Felly er mai ychydig ddisgrifiadau byr sydd yn *Pedeir Keinc* y *Mabinogi*, eto mae'r elfennau cyffredin rhyngddynt yn awgrymu bodolaeth confensiwn arbennig wrth ddisgrifio. Ac yn wir mae'r un math o ddisgrifiadau syml i'w gweld trwy

¹⁵ Gweler hefyd enghraifft debyg yn *Pwyll*, col. 5: 'ac y wiscaw eurwisc o bali amdanaw' lle disgrifir y gweision yn gwisgo *Pwyll*.

holl chwedlau'r *Mabinogion*. Er y gwahaniaeth o ran pwyslais rhwng yr un chwedl ar ddeg, gwelwn fod dwy nodwedd yn gyffredin iddynt oll. Yn gyntaf, dilynir trefn arbennig wrth ddisgrifio: enwir y math o gymeriad (e.e. *gwas*, *gwreic*, *gwr*, *mab*); yna lliw y gwallt¹⁶ a'r oed neu'r maintioli; wedyn ceir ansoddeiriau ychwanegol megis *teyrneid*, *telediwr*; yna disgrifir y wisg.¹⁷ Yr ail nodwedd a ddaw i'r amlwg yw'r ffaith fod pob disgrifiad wedi ei lunio mewn ffordd arbennig — cyfunir fformiwlâu, neu yn hytrach unedau fformiwlâig byrion, sydd yn cynnwys enw + elfen ddisgrifiadol, sef ansoddair/ansoddeiriau neu *o* + deunydd. Felly mae'r disgrifiadau fformiwlâig hyn yn *Pedeir Keinc* y *Mabinogi* yn enghraifft o dechneg a ddefnyddid yn eang. Fodd bynnag, mae'r disgrifiadau yn llawer mwy datblygedig yn *Pwyll* nag yn *Branwen* a *Math*, ac ni cheir yr un disgrifiad o'r fath yn *Manawydan*.

Saif *Mabinogi Pwyll* ar wahân hefyd gan mai yma yn unig y defnyddir fformiwlâ i ddisgrifio ymladd — yr ymladd rhwng Pwyll a Hafgan — er y medrem ddadlau nad oes cyfle i ddefnyddio fformiwlâ o'r fath yn y tair cainc arall. Defnyddir y fformiwlâ'n fynych yn y Tair Rhamant, yn enwedig yn *Gereint*.¹⁸ Pedwar cyfuniad sydd i'r fformiwlâ hon yn *Pwyll*:

Ac ar hynny y deu urenhin a nessayssant y gyt am perued y ryt e ymgyaruot. Ac ar y gossot kyntaf y gwr a oed yn lle arawn a ossodes ar hafgan ym perued bogel y daryan yny hylt yn deu hanner ac yny dyrr yr arueu oll ac yny uyd hafgan hyt y ureich ae paladyr dros pedrein y uarch yr llawr. ac angheuawl dyrnawt yndaw ynteu [col. 7]

hynny yw,

1. y gossod
2. y man lle yr ymosodir — ym perued bogel y daryan

¹⁶ Sylwer ar y cyfuniad o *bras* + lliw y gwallt yn y ddwy enghraifft yn *Math*.

¹⁷ Cymharer y disgrifiadau o ferched delfrydol gan Matthew o Vendôme yn ei *Ars Versificatoria*, a Geoffrey o Vinsauf yn ei *Poetria Nova*. Golygir y ddau waith gan E. Faral yn *Les Arts Poétiques du XII et du XIII Siècle* (Paris, 1958). Gweler hefyd Ann Matonis, 'Nodiadau ar Rethreg y Cywyddwyr: y *descriptio pulchritudinis* a'r Technegau Helaethu', *Y Traethodydd*, cxxxiii (1978), tt. 155-167; Gilbert Ruddock, 'Prydferthwch Merch yng Nghywyddau Serch y Bymthegfed Ganrif', *Llên Cymru*, xi (1971), tt. 140-175.

¹⁸ Er enghraifft *Gereint*, col. 419, 421, 432, 450.

3. effaith yr ymosodiad ar arfau'r gelyn:

- (a) *yny hylt yn deu hanner*
- (b) *yny dyrr yr arueu oll*

4. effaith yr ymosodiad ar y gelyn ei hun:

yny uyd hyt y ureich ae paladyr dros pedrein y uarch yr llawr + natur yr ergyd — angheuawl dyrnawt

Tynnwyd sylw droeon at y ffaith fod storïwr llafar yn gofalu rhoi cyfrif am bob ysbaid yn ei naratif — llenwir y bylchau rhwng yr episodau cyffrous a phwysig bron yn ddi-ffael.¹⁹ Ac yn naturiol ddigon fformiwlâ a ddefnyddir at y pwrpas hwn. Wrth geisio rhoi amlinelliad o weithgareddau o un dydd i'r llall, cyfunir unedau fformiwlâig yn y *Pedeir Keinc* [Gweler Siart II]. Ceir tri cham yma: *treulaw/dilit*; yna'r *cysgu*; yna *trannoeth*. Ceir chwe enghraifft yn *Pwyll*, tair yn *Branwen* a phump yn *Math*.²⁰ Sylwer nad ymddengys y fformiwlâ o gwbl yn *Manawydan*. Ni chyfyngir y cyfuniadau hyn i'r *Pedeir Keinc* — defnyddir yr holl gyfuniadau yn *Gereint*,²¹ ac yn *Peredur* cyfunir y *cysgu* a'r *trannoeth*.²² Weithiau ceir disgrifiad i ragflaenu'r sôn am y wledd, sef disgrifiad o'r croeso, y paratodau, a threfn yr eistedd wrth fwyta. Fel y dengys y llyfrau cyfraith, yr oedd gan rai pobl statws a safle arbennig yn y llys.²³ Yn y cyswllt hwn, cyfunir unedau eto i fynegi (a) y croeso a'r paratodau; (b) eistedd wrth y byrddau; (c) trefn yr eistedd; (ch) dechrau'r gyfeddach [Gweler Siart III].²⁴ Mae'r fformiwlâ hon yn fwyaf amlwg ym *Mabinogi Pwyll*. Ceir yr un adeiladwaith sylfaenol ym mhob enghraifft, eithr newidir y manylion yn ôl yr achlysur. Er nad yw'r unedau yn y fformiwlâ hon yn rhai ferbatim, defnyddir geiriau allweddol yn ystod pob cam o'r digwyddiadau, gan

¹⁹ Gweler C. M. Bowra, *Heroic Poetry* (Llundain, 1952), t. 214; O'Nolan, 'Homer and Irish Heroic Narrative', t. 10 a 'Formula in Oral Tradition', tt. 28-30. Trafodwyd hyn yn y Gymraeg gan W. L. Evans, 'An Examination of Narrative Methods employed in selected medieval Welsh texts', Diss. B.Litt. (Rhydychen, 1960), t. 156.

²⁰ Gweler *Pwyll*, col. 14; 9; 26; 1; 6; 16. *Bran.*, col. 40; 47; 40; *Math*, col. 103; 95; 98; 102; 106.

²¹ e.e. *Gereint*, col. 408, 387, 413, 410, 414.

²² e.e. *Peredur*, col. 147, 136, 137, 130.

²³ Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd, gol. S. J. Williams a J. E. Powell (Caerdydd, 1961), tt. xix-xxv.

²⁴ Gweler *Pwyll*, col. 5; 19; 26; 35. *Bran.*, col. 40; 44. *Man.*, col. 63. *Math*, col. 83; 98.

SIART I

Treulaw/dilit

Pwyll A threulaw y dyd hwnnw a wnaethant

Y dyd hwnnw a dreulwys trwy digrifwch a llywenyd ac eisted ac ymdidan

Bwyta a chyuedach a wnaethont

A threulaw a wnaethant bwyta a llynn a cherdeu a chyuedach

A threulaw y nos honno a orugant drwy gerdeu a chyuedach

Cysgu

A phan uu amserach kymryt hun no chyuedach y gyscu yd aethant.

Amser a doeth y uynet y gyscu . . . a threulaw y nos honno drwy digriuwch a llonydwch

[Yno y bu y nos honno]

Amser a doeth udunt e uynet e gyscu. ac y gyscu yd aethant

Trannoeth

A thrannoeth kyuodi e uynyd a wnaethant a threulaw hwnnw

A thrannoeth yn ieuengtit y dyd

A thrannoeth yn ieuengtit y dyd

Trannoeth . . .

A thrannoeth diuyrru y dyd

Bran. Dilit y gyuedach a wnaethant ac ymdidan

Dilit ymdidan a wnaethant y nos honno tra uu da ganthunt a cherd a chyuedach

Dygyuor mawr uu yn y llys y nos honno . . .

Math Treulaw y dyd a wnaethant drwy ymdidan a cherd a chyuedach

[Cyrchu Caer Tathyl]

Ymdidan a wnaeth hi a Guydyon

[Kyrchysant wynteu y llys]

A phan welsant uot yn well udunt kymryt hun no dilyt kyuedach y gyscu yd aethant

A phan welsant uot yn llessach udunt uynet y gyscu noc eisted a wei hwy y gyscu yd aethant

Ar nos honno y gyscu y gyt yd aethant

Ac yno y bu y nos honno

Guedy bot yn amser ymadaw a chyuedach . . . y gyscu yd aethant

Ar nos honno kysgu y gyt a wnaethant

Ar nos honno kysgu y gyt

A thrannoeth kyuodi a orugant

Yn y lle trannoeth kymryt kynghor

A thrannoeth kyuodi a oruc

Hir bylgeint Guydyon a gyuodes

A thrannoeth . . .

A thrannoeth kyuodi a oruc Gronw

SIART II

<i>Paratodau/Croeso</i>	<i>Eistedd</i>	<i>Trefn</i>	<i>Y Gyfeddach</i>
<i>Pwyll</i> Ar neuad a gyweirwyd	A chyrchu y bordeu a orugant	Ac eisted a wnaethant ual hyn. y urenhines or neill parth idaw ef. ar iarll debygei ef or parth arall	A dechreu ymdidan a wnaeth ef ar urenhines +
llawen uuwyd wrthaw . . . kyweiryaw y neuad a wnaethpwyd	Ac yr bordeu yd aethant	Sef ual yd eistedyssont heueyd hen ar neill law pwyll a riannon or parth arall idaw	Bwyta a chyuedach ac ymdidan a wnaethont
y neuad ynteu a gyweirwyd	Ac yr bordeu yd aethont y eisted	Ac ual yd eistedyssant ulwydyn or nos honno yd eistedwys paub y nos	Bwyta a chyuedach a wnaethont +
Diruawr llywenyd a uu yn y herbyn . . . a llawen uu pwyll wrth teyrnon	Ac y eisted yd aethont	Sef ual yd eistedyssont . . .	Guedy daruot bwyta ar dechreu kyuedach ymdidan a wnaethon
<i>Bran.</i>	Dechreu y wled ac eisted	Sef ual yd eistedyssant . . .	Ar gyuedach a dechreussant. Dilit y gyuedach a wnaethant ac ymdidan +

	A chyweiraw y pebylleu ar palleu a wnaethant	A mynet y uwyta	Ac ual y dechreuysant eisted ar dechreu y wled yd eistedyssant yna	A dechrau ymdidan a wnaeth Matholwch
<i>Man.</i>	Gwled darparedic oed udunt	Ac yna dechreu kydeisted		ac ymdidan o Uanawydau a Rhiannon
<i>Math</i>	Llawen uuant wrthunt		ar neillaw pryderi y gossodet Gwydion y nos honno	Ar nos honno didanu y llys a wnaeth . . .
	Diruawr leuenyd a uu yn eu herbyn. Yr neuad a gyweirwyd	ac y wwyta yd aethpwyd		Guedy daruot y bwyta ymdidan a wnaeth hi a Gwydion +

+ = fformiwla cysgu/trannoeth yn dilyn [Gweler Siart I]

roi'r argraff o gynefindra.²⁵ Sylwer y ceir y fformiwla hon yn y *Pedeir Keinc* yn unig — nis ceir yn chwedlau eraill y *Mabinogion*.

Yn olaf yn y categori hwn cyfunir unedau fformiwlaig wrth ddisgrifio pobl yn nesáu at adeilad, techneg sydd yn gyffredin ym mhob un ymron o chwedlau'r *Mabinogion*.²⁶ Rhagflaenir pob disgrifiad gan y ferf *gweld*, hynny yw, gwêl y gwranda'r / darllenydd bopeth trwy lygaid y cymeriad yn y stori wrth iddo ef nesáu at yr adeilad.²⁷ Nodwedd ddiddorol yw'r defnydd a wneir o fanylu neu o ganolbwyntio'n raddol,²⁸ nodwedd sydd fwyaf datblygedig yn *Peredur*. Adlewyrchiad o 'batrwm naturiol' y llawlyfrau rhethreg sydd yma efallai, lle mae'r disgrifiadau o lysoedd yn dilyn olyniaeth rhesymegol.²⁹ Yn y *Pedeir Keinc*, *Pwyll* a *Manawydan* yn unig sydd

²⁵ Cf. C. M. Bowra, *Heroic Poetry*, t. 231: 'Formulae are helpful to the audience . . . The audience can ease its attention since the phrase is familiar and needs no understanding. Also, most formulae are traditional and familiar, and their very familiarity makes the audience feel at home'.

²⁶ Trafodir *descriptio loci* yn y *Mabinogion* yn *A Study of Narrative Methods*, tt. 143-159.

²⁷ Cf. y deunydd o'r ferf *gweld* gyda'r disgrifiadau o bobl.

²⁸ Cyfeiria W. L. Evans at hyn fel yr 'observing eye technique', t. 109; tt. 143-147. Disgrifiad Brynley Roberts o'r dechneg yw 'that of the T.V. camera panning and finally centering on the significant object or person'. Gweler 'From Traditional Tale to Literary Story', t. 218.

²⁹ Sylwodd Doris Edel ar y dechneg fformiwlaig yn 'Rhaf Sylwadau ar *Peredur* a Pherthynas y chwedl Gymraeg â *Perceval Chrétien*', *Llên Cymru*, xiv (1981-82), tt. 52-63. Wrth drafod ymweliadau *Peredur* â'i ddau ewythr dywed: 'Ceir yr argraff o fformiwla'u wedi eu llinynnu ynghyd fel gleiniau yn ôl patrwm sylfaenol. Er mai chwedl ryddiaith yw *Peredur*, y mae'n ein hatgoffio o'r hyn a eilw Albert Lord yn ei astudiaeth o lenyddiaeth epig lafar, *The Singer of Tales*, yn 'arddull fformiwlaig'. Y mae Dr. Edel yn mynd mor bell â honni fod '*Peredur* vab *Evrarc* yn bod ar lafar cyn ei hysgrifennu i lawr; datblygodd o fewn i draddodiad llafar ac fe'i hadroddid gan gyfarwyddiaid traddodiadol mewn dull traddodiadol'. Gobeithiaf drafod fformiwla'u yn *Peredur* ac yn chwedlau eraill y *Mabinogion* yn y dyfodol agos.

yn defnyddio'r dechneg hon.³⁰ Unwaith eto mae camau pendant yn y fformiwla [Gweler Siart III].³¹

Felly ymddengys fod modd cyfuno unedau fformiwlaig i ffurfio fformiwla newidiol — gan ddilyn patrwm arbennig — a chynhyrchu darn disgrifiadol hwy. Er nad ailadroddir y fformiwla'u hyn air am air, eto sefydlir rhyw fath o hunaniaeth trwy lynu at yr un adeiladwaith, a thrwy gynnwys geiriau allweddol ym mhob cam o'r disgrifiad.

Ceir hefyd deip arall o fformiwla newidiol, lle na chyfunir nifer o unedau fformiwlaig i adeiladu'r disgrifiad. Yma, un clymiad geiriol yn unig a geir, ac adeiladwaith pendant o fewn hwnnw. Felly mae'r fformiwla'u newidiol hyn yn llawer byrrach na'r rhai a drafodwyd eisces. Y mae tair o'r Pedair Cainc yn dechrau yn yr un modd, gydag enw arglwydd, enw ei diriogaeth, a safle yr arglwydd ar yr amser neilltuol hwnnw. Cyn yr elfen olaf ceir ymadrodd 'amseryddol' sydd yn hoelio'r sylw ar ddigwyddiad arbennig:³²

Pwyll Pwyll pendeuic dyuet a oed yn arglwyd ar seith cantref dyuet. a threigylgweith yd oed yn arberth prif lys idaw . . . [col. 1]

Branwen Bendigeiduran uab llyr a oed urenhin coronawc ar yr ynys hon. Ac ardyrchawc o goron lundein. a frynhawn-

³⁰ Gweler *Pwyll*, col. 5. *Man.*, col. 69; 70-71.

³¹ Disgrifia Geoffrey o Vinsauf y patrwm naturiol fel hyn: 'The material's order may follow two possible courses: at one time it advances along the pathway of art, at another it travels the smooth road of nature. Nature's smooth road points the way when 'things' and 'words' follow the same sequence, and the order of discourse does not depart from the order of occurrence' [*Poetria Nova of Geoffrey of Vinsauf*, cyf., M. F. Nims (Toronto, 1967), tt. 18-19] Heb fwy o waith ymchwil anodd iawn penderfynu ar hyn o bryd ddylanwad yr ysgolion rhethreg ar *Pedeir Keinc* y *Mabinogi*.

³² Mae'r fformiwla hon yn boblogaidd iawn mewn straeon gwerin e.e. *More West Highland Tales*, Cyfrol I, gol. a cyf. John G. McKay (Caer Edin, 1940). Sylwer ar rai enghreifftiau:

tt. 330-1 Bha duine bochd ann . . . Bha e latha de na laithean ag obair . . .

tt. 228-9 Bha Rìgh anns an Fhraing . . .

A hefyd mewn straeon Gwyddeleg: Bui rì amra airegda for Erinn, Eochaid Feidleach a ainm. Do-luid feachtus n-ann dar aenach mBreg Léith . . . [*Togail Bruidne Dá Derga*, gol. Eleanor Knott (Dulyn, 1936), t. 1]. Gweler hefyd Karl Horst Schmidt, 'Boi rì amrae for Laignib, Mac Dathó a ainm', *Zeitschrift für celtische Philologie*, xxviii/3-4 (1960-61), tt. 224-34.

SIART III

	<i>Kyrchu</i>	<i>Porth/drws agoret</i>	<i>I mewn/pan doeth</i>	<i>Neuad</i>
<i>Pwyll</i>	Kyrchu y llys a oruc ynteu		Ac yn y llys ef a welei . . .	Ac yr neuad y gyrchwys
<i>Man.</i>	Y gaer a gyrchwys ef		Pan doeth yr gaer . . . ef a welei	
	Kyrchu a wnaeth	Porth y gaer a welas yn agoret	Y mywn y doeth . . . arganuot . . .	

gueith yd oed yn hardlech yn ardudwy yn llys idaw. [col. 38].

Math Math uab mathonwy oed arglwyd ar wyned. A pryderi uab pwyll oed arglwyd ar un cantref arugeint yny deheu. [col. 81]

Dechreua'r drydedd gainc yn wahanol, gan adlewyrchu ymdrech ymwybodol ar ran yr awdur i gyfuno'r ddwy chwedl. Defnyddir fformiwla newidiol yn bur aml i agor chwedlau eraill y *Mabinogion* e.e.

Breuddwyd Maxen Maxen wledic a oed amherawdyr yn rufein. A dadlau brenhined a oed arnaw diwarnawt . . . [col. 178]

Owein Yr amherawdyr arthur oed ygkaer llion ar wysc. Sef yd oed yn eisted diwarnawt yny ystafell . . . [col. 223]

Mae pob cainc yn cloi gyda'r un fformiwla:

Pwyll Ac yuelly y teruyna y geing hon yma or mabyn-nogyon. [col. 38]

Branwen A llyna ual y teruyna y geing honn or mabinyogi. Ac o achaws . . . [col. 61]

Manawydan Ac y uelly y teruyna y geing honn yma or mabinogy. [col. 81]

Math Ac yuelly y teruyna y geing honn or mabinogi. [col. 111]

Ym *Mabinogi Manawydan* ceir ymadrodd arbennig cyn y fformiwla:

Ac o achaws y carchar hwnnw y *gelwit* y *kyuarwydyt* hwnnw mabinogi mynweir a mynord. Ac y uelly y teruyna y geing honn yma or mabinogy. [col. 81]

a defnyddir y cyfuniad hwn o *galw* + *cyfarwyddyd/chwedl* i gloi rhai o chwedlau eraill y *Mabinogion* e.e.

Breudwyt Maxen Ar chwedyl hon a elwir breudwyt maxen wledic amherawdyr rufein. Ac yma y mae teruyn arnaw. [col. 191]

Owein Ar chwedyl hwn a elwir chwedyl iarlles y ffynnawn. [col. 261]

Fformiwlâu byr gydag adeiladwaith pendant ond gydag amrywiadau o fewn yr eirfa a geir pan ddefnyddir graddau'r ansoddair i ddisgrifio pobl a phethau. Ceir dau gategori yma — un yn defnyddio gradd gymharol yr ansoddair a'r llall y radd eithaf.

Gradd Gymharol

Pwyll Ac nyt oed yn y dyrnas na march na chassec degach no hi. [col. 30]

Bran. diheu oed ganthunt na welsynt eiryoet llongeu gyweirach eu hansawd noc wy. [col. 39]

Ac yno y treulysant y pedwarugeint mlyned hyt na wybuant wy eiryoet dwyn yspeit digriuwach na hyurydach no honno. [col. 59]

Man. A hoffi yn y uedwl na welsei siryoed wreic digonach y thecket ay thelediwet no hi. [col. 63]

Mi a debygaf na werendeweist eiryoet ar ymdidanwreic well no hi. Er amser y bu hitheu yn y dewred ny bu wreic delediwach no hi [col. 62]

Ac nachaf y guenith yn kyuot yn oreu yn y byt . . . hyt na welsei dyn wenith tegach noc ef. [col. 73]

Pan doeth ny welsei dyn wenith degach a hwnnw yn aeduet. [col. 74]

Ac wrth rodyaw y wlat ny welsynt eiryoet wlat gyuanhedach no hi. na heldir well nac amlach y mel nay physcawt no hi. [col. 63-64]

Math Ac or guimon ar delysc hudaw cordwal a wnaeth . . . ac eu brithaw a oruc hyt na welsei neb lledyr degach noc ef. [col. 96]

Ny welsei neb ar wr dremynt druanach hagen noc a oed arnaw ef. [col. 108].

Gradd Eithaf³³

Pwyll Ac or a welsei eiryoet wrth ymdidan a hi dissymlaf gwreic a bonedigeidaf i hannwyt ay hymdidan oed. [col. 6]

Ac a rodaf y wreic deccaf a weleist eirot y gyscu gyt a thi beunoeth [col. 3]

Ar urenhines y gyt ac wynt yn deccaf gwreic or a welsei neb . . . [col. 5]

³³ Yn ôl D. Simon Evans, *Gramadeg Cymraeg Canol* (Caerdydd, 1951), t. 27, 'Yn fynych nid dynodi cymhariaeth y bydd y radd eithaf, ond cryfhau grym y radd gysefin'.

llyma y guelei ef teulu ac yniuroed ar niuer hardaf a chyweiraf or a welsei neb [col. 5]

Ac yn y llys ef a welei hundyeu ac yneuadeu ac ysteuyl ar arduen teccaf a welsei neb o adeiladeu. [col. 5]

Or a welsei o holl lyssoed y dayar llyna y llys diwallaf o uwyt . . . [col. 6]

Ar gwr goreu yn y byt oed [col. 30]

yny oed delediwhaf gwass a theccaf a chwpplaf o pob camp da or a oed yn y dyrnas [col. 37]

Bran. teccaf uorwyn yn y byt oed. [col. 40]

o wyr ac arueu goreu a welas neb [col. 47]

Man. Ac y dathithwys hi yn wreigyang deccaf a welsei neb [col. 80]

y cordwal teccaf a gauas yn y dref [col. 67 a 72]

yr eurych goreu yn y dref [col. 67]

Math asswynaw yr un uorwyn deccaf a thelediwhaf a welas dyn eirot [col. 100]

Ynteu yna a meint gwr yndaw ac yn delediwhaf guas a welas dyn eirot [col. 100]

A honno teccaf morwyn yn y hoes or a wydit yno [col. 81]

Ucheneit dromhaf yn y byt [col. 82]

Gyda'r radd gymharol ceir dau batrwm:

- (a) *A diheu oed ganthaw na . . . (eirot) . . . -ach no . . .*
Dim ond un enghraifft sydd yma yn y *Pedeir Keinc*, ond ceir lluo o enghreifftiau yn *Gereint* (e.e. col. 428, 390) ac *Owein*, a digwydd gyda gradd gyfartal yr ansoddair yn *Peredur* ac yn *Owein* hefyd (e.e. col. 157, 240, 247, 256). Sylwer na cheir deunydd o'r radd gyfartal yn y *Pedeir Keinc* o gwbl.

- (b) Gan amlaf yn y *Pedeir Keinc* hepgorir *diheu oed ganthaw*, a cheir fformiwlâ fer a syml — *na/ny . . . (eirot) . . . -ach no/na . . .*

Gyda'r radd eithaf ceir yr adeiladwaith *-af . . . (or) a welsei eirot/neb/dyn eirot*. Weithiau daw'r *or a welsei eiryoet* ar ddechrau'r fformiwlâ. Unwaith eto mae'r ferf *gweld* yn amlwg yn y fformiwlâ. Ceir amrywiadau ar *a welsei eirot*, hynny yw sonnir am fan arbennig. e.e. *yn y dyrnas, yn y byt, yn y hoes or a wydit yno*. Mae fformiwlâu o'r fath yn nodweddiadol o *Pedeir Keinc* y *Mabinogi* ac o chwedlau'r *Mabinogion* yn gyffredinol. I bob golwg yr oedd yn well

gan yr awduron ddefnyddio graddau'r ansoddair yn hytrach na disgrifiadau manwl.³⁴

Defnyddir fformiwlâu newidiol i ddisgrifio *cymryd cyngor*, hynny yw pan eilw brenin neu bennaeth ar ei gynghorwyr i ofyn eu barn. Gwelir y fformiwla hon ym mhob cainc ond *Pwyll* a cheir dau gategori yma:

- Bran.* Yny lle trannoeth *kymryt kynghor*. *Sef a gahat yny kynghor* . . . [col. 40]
Ef a aeth yny *kynghor sef kynghor a uedylyssant* . . . [col. 44]
Ac yna *kymryt kynghor*. *Sef kynghor a gahat* . . . [col. 49]
Ac ynteu a *gymerth kynghor*. *Sef a gauas yny kynghor* . . . [col. 53]
Math Ni a *gymerwn kynghor*. *Sef a gaussant yny kynghor* [col. 85]
Ac ar y *kynghor y doethant* wynteu. *Sef a gaussant yn eu kynghor* . . . [col. 87]
Man. A *chymryt kynghor*. *Sef a gausant yn eu kynghor* . . . [col. 68]

Yn yr ail gategori, *nyt oes kynghor namyn* . . . yw'r elfen ganolog:

- Bran.* A *chynghor a gymerwyt*. Arglwyd heb y wyrda wrth uatholwch *nyt oes kynghor namyn* . . . [col. 51]
A wyr heb y matholwch *mae ych kynghor chwi*. Arglwyd heb wy *nyt oes it kynghor namyn un*. [col. 53]
Math Ar nos honno y bu yr ymgynghor ganthunt . . . *Nyt oes kynghor it heb ef onyt un* [col. 103]
A pha beth a wnawni heb hi. Arglwyddes heb y Gwydyon *nyt oes in kynghor onyt* . . . [col. 98]

Yn olaf, defnyddir fformiwla newidiol pan fo angen disgrifio taith. Byr iawn yw'r fformiwlâu hyn, heb gynnwys yr un manylyn, ond eto yn dangos pa mor bwysig yw rhoi cyfrif am bob ysbaid:

³⁴ Yn *A Critical Edition of Chwedyl Gereint vab Erbin*, Diss. B.Litt. (Rhydychen, 1961), t. xcvi, mae C. P. Morgan yn cymharu'r dechneg yma â thechneg Sieffre o Fynwy yn ei *Historia Regum Britanniae*. Moel iawn yw ei ddisgrifiadau yntau, e.e. disgrifir Gwenhwyfar fel 'totius insulae mulieres pulchritudine superbat', ac Ygernna yw 'cuius pulchritudo mulieres omnes Britanniae superabat'.

- Man.* Byhyt bynnac y buant ar y fford wynt a doethant y Dyuet [col. 68]
Pa hyt bynnac y bydynt y uelly ny chlywynt . . . [col. 69]
A pha hyt bynnac y bydynt ar y ford wynt a doethant y Dyuet [col. 62]
Bran. Pa hyt bynnac y bydynt ar y ford wynt a doethant . . . [col. 60]

Wrth lynu at yr un adeiladwaith yn ei fformiwlâu mae'r storiwr felly yn medru cynnal y patrwm heb ailadrodd yr un geiriau. Felly mae modd iddo gael amrywiaeth eang ond ar yr un pryd mae ganddo batrwm sylfaenol sydd yn gymorth cyson iddo wrth gyfansoddi ei chwedl.

Y trydydd teip o fformiwla a welir yn *Pedeir Keinc* y *Mabinogi* ac yn chwedlau'r *Mabinogion* yn gyffredinol yw'r ddwbled, cyfuniad o ddau air sydd i bob pwrpas yn gyfystyr, a chan amlaf yn cytseinio. Perthyn i arddull y naratif mae'r ddwbled, i'r ffurf ac nid i'r cynnwys³⁵ gan arafu'r naratif a rhoi cyfle i'r storiwr ymarfer 'the Fabian art of delay' ys dywed O'Nolan.³⁶ Mae'r ddwbled felly yn cyflwyno un syniad drwy gyfrwng dwy ddelwedd. Yn dilyn ceir rhestr o'r dwbledau sydd yn y *Pedeir Keinc*, dwbledau sydd i'w gweld hefyd yn chwedlau eraill y *Mabinogion*:

- Pwyll* y gyuoeth ac y wlat [col. 11]
y wlat ar kyuoeth [col. 27, 37]
teulu ac yniuroed [col. 5, 14, 22, 29]
yn y uryt ac yn y uedwl [col. 1]
am dir a dayar [col. 7]
Man. hawlwr tir a dayar [col. 61]
y wlat ar kyuoeth [col. 65]
hut ar lledrith [col. 79]
y uryt ay uedwl [col. 63]
Math ae tir ae dayar [col. 110]
trymuryt a goueileint [col. 106]
hut a lledrith [col. 89]
o nerth grym ac angerd [col. 89]

³⁵ Cf. y 'noun-epithet formula' mewn barddoniaeth arwrol. Gweler K. O'Nolan, 'Doublets in the *Odyssey*', *The Classical Quarterly*, New Series, xxviii (1978), tt. 23-37. Gweler hefyd O'Nolan, 'Formula in Oral Tradition', tt. 24-26.

³⁶ 'Doublets in the *Odyssey*', t. 37.

Yn ôl O'Nolan mae'n rhaid i'r ddwbled ddigwydd fwy nag unwaith i brofi ei bod yn rhan o system 'ddefnyddiol'.³⁷ Eto, ni ellir anwybyddu'r llu o ddwbledau na ddigwyddant ond unwaith yn y *Mabinogion*. Hyd yn oed os nad oeddynt yn rhan o system draddodiadol, maent efallai yn adlewyrchu ymgais ymwybodol ar ran y storiwyr i addasu technegau traddodiadol ar gyfer eu mynegiant, hynny yw, creu o fewn y mowld traddodiadol.³⁸ Sylwer ar y canlynol yn *Pedeir Keinc y Mabinogi*:

Pwyll kymriw neu archolleu [col. 13]

llys ar kyuanned [col. 5]
digrifwch a didanwch [col. 32]
wrth y uod ay uympwy [col. 26]
athrawon a doethon [col. 30]
cleisseu a dyrnodeu [col. 29]
twrwl a diskur [col. 31]

Bran. car a chedymeith [col. 60]

heb ouyn heb ganhyat [col. 42]
nae lad nae diuetha [col. 43]
y pebylleu ar palieu [col. 44]
y poenau ar amharch [col. 49]
yn diwall ac yn digrif [col. 59]

Man. dicter a llit [col. 74]

yr anhedu ar kyuanhed [col. 81]
ay ty ay kyuanhed [col. 65]
na chyfrif na messur [col. 74]

Math dy bryt ath liw [col. 82]

serch ar caryat [col. 102]

Sylwyd fod y tripled a'r pedwarawd yn digwydd ar brydiau yng ngwaith Homer ac mewn chwedlau Gwyddelig, er nad yn fynych.³⁹ Mae'r un peth yn wir yn y Gymraeg — ychydig iawn o dripledau sydd yn y *Pedeir Keinc*:

Pwyll tir a dayar a chyuoeth [col. 24]

Math y liw ay wed ay ansawd [col. 82]

o bryt a thwf a meint [col. 98]

Bran. y llongeu ar yscraffeu ar corygeu [col. 49]

³⁷ 'Doublets in the *Odyssey*', t. 25.

³⁸ Creu o fewn y traddodiad a wna awdur *Breuddwyd Rhonabwy* wrth ddisgrifio pobl. Gweler 'Pryd a Gwedd yn y Mabinogion'.

³⁹ 'Doublets in the *Odyssey*', O'Nolan, tt. 36-37.

Ar y cyfan ychydig iawn o ddwbledau a ddefnyddir yn y *Pedeir Keinc* ac yn chwedlau'r *Mabinogion* yn gyffredinol, ac odid ddim cyflythreniad rhyngddynt. Cymharer dau ddarn o'r Wyddeleg:

Dá mbadh fíor-ghaisgidheach nó curadh maith thú, ní fhágfa áit ná ionad, ceard ná cearn, ball ná clúid gan cuartú go grinn géar, agus annsin gheobhthá amach duit féin an áit i n-a dtugtar cath agus caon-chosgar.⁴⁰

Iar ccaitheamh 7 iar ccoimhchinneadh na rée 7 na roi-aimsire sin dóibh, dano, 7 iar mbeith ion-aistir ion-imtheachta dá n-áos cneadh 7 crécht, 7 dá lucht othrais 7 easláinte, ro gabhadh lámh ar imtheacht leó go luinneach lúathgháireach dochum a loinge 7 lúath-arthraigh d'fhágbháil na hÍruaidhe fó chédóir.⁴¹

Ond eto i gyd, mae'r ffaith eu bod yn bresennol mewn rhyddiaith Gymraeg yn awgrym pellach efallai o wreiddiau llafar y chwedlau hyn.

O edrych ar y dystiolaeth yn *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gwelir fod gormod o gyfatebiaethau rhwng ymadroddion a disgrifiadau iddynt fod yn ddim ond cyd-ddigwyddiad. Mae'n amlwg fod yr awdur yn tynnu oddi ar stoc o glymiadau geiriol neu fformiwlâu a oedd yn gyfarwydd iddo, gan adeiladu ac amrywio arnynt fel y byddai'r gofyn. Gallwn fod yn weddol sicr felly ein bod yn trafod techneg sydd, i raddau helaeth, yn dechneg fformiwlâig.⁴² Ac yn wir mae'r dechneg hon i'w

⁴⁰ *Béaloideas*, i (1928), rhif iv, tt. 329-42.

⁴¹ *Tóraigheacht Taise Taoibhghile*, gol. Máire Ní Mhuirgheasa (Dulyn, 1954), t. 78.

⁴² Gweler R. H. Middleton, *Studies in the Textual Relationship of the Erec/Gereint Stories*, Diss. D.Phil. (Rhydychen, 1976), tt. 148-259. Yma ceir trafodaeth ar y fformiwlâu yn *Gereint*, a rhai pwyntiau cyffredinol ar y berthynas rhwng fformiwlâu a chyfansoddi llafar. Dywed Middleton fod peth o'r ailadrodd mewn rhyddiaith Gymraeg ganoloesol yn ddibwys — nid yw'n ddim ond canlyniad ysgrifennu yn yr iaith Gymraeg. Felly mae'n rhaid gallu gwahaniaethu rhwng y stoc o fformiwlâu dilys a'r cyfuniadau damweiniol neu'r ystrydebau. Sylw pwysig iawn yw hwn sydd yn hawlio parch unrhyw un sydd am geisio dadansoddi technegau naratif rhyddiaith Gymraeg ganoloesol. Yr wyf wedi ceisio osgoi cyfrif y cyfuniadau damweiniol fel fformiwlâu, a gobeithiaf fod fy nhrafodaeth yn gam ymlaen yn y cyfeiriad cywir.

gweld i ryw raddau drwy holl chwedlau'r *Mabinogion*. Yr awgrym yw mai gwaith nifer o awduron sydd gennym, storiwyr a fyddai'n cydnabod ac yn parchu'r un confensiynau wrth adrodd stori. Nid dweud yw hyn iddynt gael eu cyfansoddi ar lafar. Yn ôl damcaniaeth Parry, mae presenoldeb fformiwlâu yn golygu cyfansoddi ar lafar. Ond fel y dadleua J. A. Russo, dim ond dau ddewis sydd yn bosibl yn ôl y fath ddamcaniaeth:

Either the poet wrote his verse and used an individual style relatively free of formulaic schematization, or, because we find his style rich in traditional phrases and formulaic schematizations, he must have created his verse by a special oral technique in which repetitions and schematizations serve as props to support his fluency.⁴³

A dyma gwestiwn holl-bwysig Russo:

Why can't there be any middle ground between these two conceptions of the poet's craft?

Tybia ef nad yw cyfansoddiad fformiwlâig yn gyfystyr â pherfformiad byrfyfyr sydd yn dibynnu'n hollol ar fformiwlâu. Cais ef wahaniaethu rhwng arddull fformiwlâig ac arddull lafar — mae'r ddwy yn draddodiadol, ond nid ydynt o angenrheidiwydd yn golygu'r un broses o gyfansoddi. Ac fel y dywed A. Chalmers Watts, mae dadansoddiad fformiwlâig yn nodweddu'r hyn sydd ar y tudalennau, ond nid yw'n esbonio sut y daeth yno. Ei chwestiwn hi yw hyn:

At what point does a small degree of formulaic content become conventional diction in literary composition as opposed to formulaic phraseology in an oral composition?⁴⁴

Felly nid yw'r broblem mor syml ag y disgrifiwyd gan Milman Parry. Er bod y *Pedeir Keinc* yn cynnwys elfen fformiwlâig, ni allwn honni iddynt gael eu cyfansoddi ar lafar, ac yna eu trosglwyddo i femrwn. Fel y dywed B. F. Roberts:

⁴³ Russo, 'Is Oral or Aural Composition the Cause of Homer's Formulaic Style?', t. 38.

⁴⁴ Ann Chalmers Watts, *The Lyre and the Harp*, t. 197.

In the early stages of the development of the literary tale the already established conventions of the oral storyteller would have been the overriding influence on an author's style, and though experience in other types of Welsh writing (e.g. legal) and in Latin and French literature would have provided patterns for structuring and presenting material, the basis of the style of these tales would have been the *cyfarwydd* or oral tradition. The written tales develop their own conventions and the extant stories share common features, so that we may describe these texts as being '*cyfarwydd style writing*,' a consciously literary style which never became wholly divorced from the oral tradition which continued to flourish throughout the Middle Ages.⁴⁵

Mae'n debyg mai rhan o gynhyrsgaeth perfformiad llafar y cyfarwydd *oedd* y dechneg fformiwlâig hon yn wreiddiol, ond fe'i tymherwyd pan drosglwyddwyd y chwedlau i'w ffurfiau ysgrifenedig.

Felly, wrth astudio'r elfen fformiwlâig yn *Pedeir Keinc* y *Mabinogi* cawn olwg o'r newydd ar gelfyddyd y cyfansoddiadau. Cawn hefyd efallai ychydig o oleuni ar natur y cyfansoddi ei hun. I gloi, mentraf ofyn a oes digon o gyfateb-iaethau rhwng y fformiwlâu i warantu mai un 'awdur' a luniodd *Pedeir Keinc* y *Mabinogi*?⁴⁶ Ni cheir y fformiwlâ *kymryt kynghor* yn *Pwyll*; ni cheir y llw y *rof i a duw* yn *Branwen*, er ei fod yn amlwg iawn yn *Pwyll* a *Manawydan*; gradd eithaf yr ansoddair a ddefnyddir ym mhob achos ond un yn *Pwyll*, a'r radd gymharol sydd amlycaf yn *Manawydan*; dim ond yn *Pwyll* ac unwaith yn *Branwen* y ceir yr holl gyfuniadau ar y fformiwlâ 'eistedd wrth y bwrdd'; dim ond yn *Pwyll* y ceir disgrifiadau o wisg y cymeriadau ac o ymladd; ni cheir fformiwlâu treulio amser yn *Manawydan*. Wrth gwrs, ni roddwyd sylw ond i un dechneg yma, ac mae angen

⁴⁵ 'From Traditional Tale to Literary Story', t. 215.

⁴⁶ Gweler fy mhapur '*Pedeir Keinc* y *Mabinogi*' — *A Case for Multiple Authorship* a draddodwyd yn y *North American Congress of Celtic Studies*, 1986. Hefyd erthygl gynhwysfawr R. M. Jones, 'Narrative Structure in Medieval Welsh Prose Tales' yn *Proceedings of the Seventh International Congress of Celtic Studies held at Oxford, from 10th to 15th July, 1983*, gol. D. Ellis Evans, John G. Griffith and E. M. Jope (Rhydychen, 1986), tt. 171-98.

cynnwys sawl maen prawf arall wrth drafod pwnc mor astrus.
Ond yn ddiamau, mae hi'n hen bryd i ni edrych ar *Pedeir
Keinc* y *Mabinogi* o'r newydd, gan ail-ystyried dull y
cyfansoddi, effaith y traddodiad llafar, a holl gwestiwn eu
hawduraeth.